ELL 11-01(p.6)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

At: Sawl ar y rhestr amgaeedig

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date 11 Mehefin 2001

Annwyl Gyfaill,

**Y TASGLU ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON YN YR YSGOL**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi fod y Tasglu arbenigol a sefydlwyd ym mis Mai 2000 i gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â gwella effeithiolrwydd a chyflwyno Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon yn yr ysgol wedi cyflwyno ei adroddiad i'r Cynulliad. Amgaeir copi o'r adroddiad er gwybodaeth.

Mae'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson AC, wedi croesawi'r adroddiad yn fras a mae'n darparu adnoddau yn 2001/2001 i weithredu rhai o'r argymhellion a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

Mae'r Cynulliad yn credu bod AG mewn ysgolion yn bwysig ac yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae yn ei wneud i gynnal a gwella iechyd corfforol a ffitrwydd plant. Am y rheswm yma, yr ydym wedi sicrhau bod AG yn dal yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae tystiolaeth ddiweddaraf Estyn ar safonau AG mewn ysgolion yn rhoi darlun cymysg. Mewn ysgolion cynradd, er enghraifft, tra bod swm y gwaith anfoddhaol neu wael wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, mae'r swm o waith da iawn neu dda wedi gostwng. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r gostyngiad yn y gwaith anfoddhaol neu wael yn digwydd ar yr un pryd â gostyngiad yn y swm o waith da iawn neu dda.

Mae Adroddiad y Tasglu yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwella safonau a mae'n helpu i arwyddo'r ffordd ymlaen i'r Cynulliad Cenedlaethol, ysgolion, AALl a'r holl bartneriaid sy'n ynghlwm â darparu AG a gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol i fynd i'r afael â'r gwahanol ddiffygion. Mae'n ddyhead gennym i sicrhau bod ysgolion yn darparu o leiaf 2 awr o amser cwricwlwm ar gyfer AG "effeithiol ac ystyrlon", tra'n cydnabod bod y

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon / Tel: 029 2082 5867
GTN: 1208 5867
Ffacs / Fax: 029 2082 5848
Minicom: 029 2082 3280
E-bost / E-mail:
tony.peters@wales.gsi.gov.uk

gweithgareddau all-gwricwlaidd yn darparu cyfleoedd eraill ar gyfer amrediad eang o chwaraeon ysgol effeithiol.

Mae’r Gronfa Cyfleoedd Newydd (CCN) yn ymgynghori ar gynigion ynglŷn â’r modd y dyrennir y £48.75 miliwn sydd ar gael ar gyfer AG a Chwaraeon yn yr Ysgol yng Nghymru. Mae’r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn credu ei bod yn bwysig bod argymhellion y Tasglu a’r projectau a gefnogir gan CCN yn cael eu gweithredu mewn ffyrdd sy’n cydredeg â’i gilydd.

Ymysg yr argymhellion yn Adroddiad y Tasglu i’w gweithredu gan y Cynulliad yn 2001/2002 bydd apwyntio Cydlynydd Cenedlaethol AG a chwaraeon yn yr ysgol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio gweithredu argymhellion yr Adroddiad fel a gymeradwyir gan y Cynulliad, wedi ei gefnogi gan Bwyllgor Llywio.

Un gorchwyl allweddol i’r Cydlynydd fydd datblygu’r rhaglenni o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus mewn AG ar gyfer pob athro (gweler Adran 2.2 o’r Adroddiad), a sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm (CDC) ar ffurf peilot (gweler Adran 5 o’r Adroddiad). Yr ydym yn rhagweld y bydd y peilot yn cynnwys pump CDC, un o bob un o’r modelau a gynigir yn yr Adroddiad. Byddwn yn edrych i rai o’r rhain i fod mewn ardaloedd defreintiedig, wedi’u cysylltu gyda menter Rhoi Cymunedau’n Gyntaf, lle mae safonau iechyd isel yn gyffredin ond sydd **ar waethaf** hynny yn perfformio’n dda – hynny yw, ysgolion sy’n dangos arfer dda effeithiol mewn AG a chwaraeon yn yr ysgol.

Dylech nodi gan fod y cwricwlwm diwygiedig wedi dod i rym ym mis Medi 2000 yn dilyn arolwg, nid oes gan y Cynulliad unrhyw fwriad presennol i wneud AG yn bwnc craidd o fewn y cwricwlwm (gweler argymhelliad 1.2.1 yn yr Adroddiad). Mae AG eisoes yn rhan o’r Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae eisoes yn orfodol i’w ddysgu ym mhob ysgol a gynhelir – yn unol â’r Rhaglen Astudio diwygiedig ar gyfer AG a gyflwynwyd o fis Medi 2000. Yn yr un modd, nid oes unrhyw gynlluniau cyfredol i gyflwyno cwricwlwm AG penodol fel rhan o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon – er y bydd yr argymhellion yn Adran 2.1.1 o’r Adroddiad yn cael eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o arolwg ehangach y Cynulliad Cenedlaethol o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a fydd yn cychwyn yn fuan.

Cyfyngir dosbarthiad o Adroddiad y Tasglu i AALl, Cyrff Rheoli Chwaraeon a’r rhai a nodir ar y rhestr amgaeedig. Fodd bynnag, y mae ar gael ar wefan y Cynulliad ar www.wales.gov.uk i unrhyw ysgol neu unigolyn sy’n dymuno copi neu drwy gysylltu â’r llinell archebu cyhoeddiadau ar 029 2082 6010. Os hoffech gynnig sylwadau ar argymhellion yr Adroddiad, dylid eu hanfon at Angela Powell yn Adran Safonau a Pherfformiad yn y cyfeiriad uchod [neu e bost : angela.powell@wales.gsi.gov.uk erbyn 31 Gorffennaf 2001.

**E K DAVIES**
Pennaeth, Adran Safonau a Pherfformiad
Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol